**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-HIDCC-5465-24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales

29 Hydref 2024

Annwyl Mike,

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr dyddiedig 9 8 2024 ynglŷn â'r Offeryn Statudol (OS) ar gyfer y DU y cyfeirir ato uchod Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith) 2024.

Rwyf wedi ysgrifennu atoch o'r blaen i roi gwybod i'r Pwyllgor fy mod yn bwriadu rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud yr OS uchod ar gyfer y DU yn gymwys i Gymru. Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi fy mod bellach wedi rhoi'r cydsyniad hwnnw. Rwyf hefyd wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig, sydd i'w weld yma: ws-ld16763-r-w.pdf

Mae'r Rheoliadau'n gorgyffwrdd â pholisi datganoledig, a byddant yn gymwys i Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Y weithdrefn negyddol fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer yr Offeryn Statudol (OS), ac fe'i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 24 Hydref 2024 yn amodol ar ddadl yn nau Dŷ Senedd y DU. Bydd y cynllun yn dod i rym wedyn ar 1 Ionawr 2025.

Rwyf wedi ysgrifennu hefyd at Llŷr Gruffydd, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.